

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

PRESENT: County Councillor Meirion Howells (Chairman)
County Councillor Su McConnel (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn, Peter Strong, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Maria Stevens, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Dale Rooke, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Ann Webb

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Paul Matthews	Prif Weithredwr
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ben Davies	Cyfreithiwr
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

APOLOGIES:

County Councillors Tomos Davies, Catherine Fookes and Sue Riley

1. Datganiadau o Fuddiant

Eitem 9.2 – Cynnig: Gwasanaethau Meddygon Teulu Gilwern – Datganodd y Cynghorydd Sir Alistair Neill fuddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel cyflogai rhan-amser o'r GIG.

Eitem 9.3 – Cynnig: Fy Niwrnod Fy Mywyd – Datganodd y Cynghorydd Sir Paul Pavia fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu fel Cydymaith Practice Solutions. Nid yw'n ymwneud â thîm y prosiect na'r prosiect.

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd a Deisebau Sydd Wedi Eu Derbyn

Nodwyd cyhoeddiad y Cadeirydd.

3. E-Ddeiseb - Achubwch Ein Mannau Agored Gwyrdd

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir Frances Taylor e-ddeiseb i'r Cyngor ar ran trigolion Magwyr gyda Gwndy ynghylch Ardaloedd Agored Gwyrdd.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=72

4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2023

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 31ain Awst 2023

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 31ain Awst 2023 fel cofnod cywir.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sy'n amlinellu gwaith a chasgliadau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor ac yn darparu trosolwg annibynnol ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau craidd yn ystod y flwyddyn.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=337

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Bod y Cyngor yn:

- ail-gadarnhau ei ddisgwyliadau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac yn benodol a yw'n dymuno rhoi unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol iddo,
- yn cytuno y dylid mynd i'r afael â'r ardaloedd gwella a amlygir, ac fel y bo'n briodol; ac
- yn cymeradwyo'r adroddiad hwn.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Adroddiad Blynyddol cyntaf 2022/23 y Pwyllgor Safonau, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Eglurodd y Cadeirydd mai adroddiad Ymddygiad Aelodau ydyw i bob pwrpas. Canmolodd y Pwyllgor Safonau yn gryf bob aelod o'r awdurdod am barhau i gynnal safonau ymddygiad uchel trwy gydol 2022/23, a oedd yn flwyddyn arbennig o heriol.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=699

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:

Bod y Cyngor yn ystyried y casgliadau a'r sylwadau a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

8. ADRODDIAD AR DREFNIADAU CRAFFU AR Y CYD AR GYFER CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad o'r Trefniadau Craffu ar y Cyd ar gyfer Cydbwyllgorau Corfforaethol, sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer trefniadau craffu priodol ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru. Mae angen yr un gofynion perfformiad, llywodraethu a

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

chraffu ar y Cydbwyllgorau Corfforaethol ag sydd ar awdurdodau lleol o ran trefniadau sy'n gymesur â maint y swyddogaethau y mae'r Cydbwyllgor Corfforaethol yn eu cyflawni.

Dylai cyngorau cyfansoddol a Chydbwyllgorau Corfforaethol roi ystyriaeth i fuddion pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd sy'n cynnwys y cyngorau cyfansoddol.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=946

Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Bod y Cyngor yn ystyried y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, ac yn gweithredu trefniadau addas drwy'r canlynol;

- **Penodi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru;**
- **Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 2;**
- **Gan nodi y bydd y gost o weinyddu'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru yn cael ei drin drwy gytundeb lefel gwasanaeth rhwng CBSRhCT a'r Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, i'w gwblhau maes o law.**

9. Cynigion i'r Cyngor

10. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Peter Strong

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i Sir Fynwy ddod yn sir noddfa, gan groesawu a chefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Fel rhan o'r addewid hwn, byddwn yn ymdrechu i ddod yn aelod achrededig o Rwydwaith Dinas Noddfa'r DU. Byddwn yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan yr awdurdod i gefnogi ffoaduriaid o Afghanistan, Syria ac Wcráin a gweithio gyda phartneriaid ledled y gymuned i ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan hyrwyddo a dathlu'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'n gymunedau.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=1226

Ar ôl cael ei gyflwyno i bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhelliad

County Councillor Jayne McKenna left the meeting at 14.27 and rejoined at 14.45

11. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Alistair Neill

Mae'r Cyngor hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r arweinydd cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch gyflwyno cynllun prosiect sy'n archwilio'n llawn y potensial i greu Hyb Iechyd a Lles, sy'n cynnal cynnig o hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos o wasanaethau meddygon teulu gofal sylfaenol lleol hanfodol ar gyfer y 3,100 o breswylwyr cofrestredig yng Ngilwern a'r cymunedau cyfagos. Byddai'r cynllun hwn yn dod yn ddeddf ar gyfer unrhyw achos pellach o feddygon teulu preifat yn cau yn ein sir.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=2535

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

Ar ôl cael ei roi mewn pleidlais wedi'i chofnodi, penderfynodd y Cyngor wrthod y cynnig.

Pleidleisiau o blaid: 21

Pleidleisiau yn erbyn: 22

Ymataliadau: 0

NAME	For	Against	Abstain
Councillor J BOND		X	
Councillor M A BROCKLESBY		X	
Councillor F BROMFIELD	X		
Councillor L BROWN	X		
Councillor E BRYN	X		
Councillor R BUCKLER	X		
Councillor S BURCH		X	
Councillor J BUTLER	X		
Councillor B CALLARD		X	
Councillor I CHANDLER		X	
Councillor J CROOK		X	
Councillor T DAVIES	-	-	
Councillor L DYMOCK	X		
Councillor A EASSON		X	
Councillor C EDWARDS	X		
Councillor C FOOKES	-	-	
Councillor S GARRATT		X	
Councillor R GARRICK		X	
Councillor P GRIFFITHS		X	
Councillor M GROUCUTT		X	
Councillor S.G.M. Howarth	X		
Councillor M HOWELLS		X	
Councillor R JOHN	X		
Councillor D. W. H. Jones	X		
Councillor P. Jones	X		
Councillor T KEAR	X		
Councillor M LANE	X		
Councillor J LUCAS	X		
Councillor C MABY		X	
Councillor S MCCONNEL		X	
Councillor J MCKENNA	X		
Councillor P MURPHY	X		
Councillor A NEILL	X		
Councillor P PAVIA	X		
Councillor M POWELL	X		
Councillor S RILEY	-	-	
Councillor D ROOKE		X	
Councillor A SANDLES		X	
Councillor M STEVENS		X	

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

Councillor J STRONG		X	
Councillor P STRONG		X	
Councillor F TAYLOR	X		
Councillor T THOMAS		X	
Councillor A WATTS		X	
Councillor A WEBB	X		
Councillor L WRIGHT		X	
TOTAL	21	22	0

County Councillor Lisa Dymock joined the meeting at 14.57

12. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Richard John

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn cymeradwyo holl argymhellion yr adolygiad allanol arbenigol i'r gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd
- Yn nodi bod y Cyngor yn parhau i werthuso opsiynau ar gyfer darpariaeth hirdymor ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun prosiect o fewn chwe wythnos, gan nodi'r dull a ffefrir ganddo.
- Cyfarwyddo'r weinyddiaeth i baratoi ar gyfer ailagor canolfan ddydd Tydor Street yn y cyfamser

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=6083

Ar ôl cael i roi i bleidlais cafodd y cynnig ei ddiwygio i ddarllen:

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn cymeradwyo holl argymhellion yr adolygiad allanol arbenigol i'r gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd
- Yn nodi bod y Cyngor yn parhau i werthuso opsiynau ar gyfer darpariaeth hirdymor ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun prosiect o fewn chwe wythnos, gan nodi'r dull a ffefrir ganddo.
- Ymrwymo'r weinyddiaeth i agor canolfan ar gyfer gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn Nhrefynwy a'r Fenni

Pleidleisiau o blaid y diweddariad: 22

Pleidleisiau yn erbyn y diweddariad: 21

Ymataliadau: 0

Ar ôl cael ei roi i bleidlais derbyniodd y Cyngor y cynnig sylweddol newydd.

NAME	FOR	AGAINST	ABSTAIN
------	-----	---------	---------

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

Councillor J BOND	X		
Councillor M A BROCKLESBY	X		
Councillor F BROMFIELD		X	
Councillor L BROWN		X	
Councillor E BRYN		X	
Councillor R BUCKLER		X	
Councillor S BURCH	X		
Councillor J BUTLER		X	
Councillor B CALLARD	X		
Councillor I CHANDLER	X		
Councillor J CROOK	X		
Councillor T DAVIES	-	-	
Councillor L DYMOCK		X	
Councillor A EASSON	X		
Councillor C EDWARDS		X	
Councillor C FOOKES	-	-	
Councillor S GARRATT	X		
Councillor R GARRICK	X		
Councillor P GRIFFITHS	X		
Councillor M GROUCUTT	X		
Councillor S.G.M. Howarth		X	
Councillor M HOWELLS	X		
Councillor R JOHN		X	
Councillor D. W. H. Jones		X	
Councillor P. Jones		X	
Councillor T KEAR		X	
Councillor M LANE		X	
Councillor J LUCAS		X	
Councillor C MABY	X		
Councillor S MCCONNEL	X		
Councillor J MCKENNA		X	
Councillor P MURPHY		X	
Councillor A NEILL		X	
Councillor P PAVIA		X	
Councillor M POWELL		X	
Councillor S RILEY	-	-	
Councillor D ROOKE	X		
Councillor A SANDLES	X		
Councillor M STEVENS	X		
Councillor J STRONG	X		
Councillor P STRONG	X		
Councillor F TAYLOR		X	
Councillor T THOMAS	X		
Councillor A WATTS	X		
Councillor A WEBB		X	
Councillor L WRIGHT	X		

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

TOTAL	22	21	0
-------	----	----	---

Upon being put to a vote Council resolved to accept the new substantive motion.

13. Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Frances Taylor

Bod y Cyngor hwn yn cydnabod y ddyletswydd i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer darpariaeth llain Sipsiwn a Theithwyr ac;

1, Yn cymeradwyo casgliad y Pwyllgor Craffu Pobl ar 19 Gorffennaf, lle gwrthododd aelodau'r traws-grŵp y cynigion i ymgynghori ar y pum darn o dir sy'n eiddo i'r cyngor ac argymhell bod y cyngor yn dychwelyd i'r camau cychwynnol. Cytunodd yr Aelodau i beidio ag argymhell unrhyw un o'r darnau o dir i'r cabinet i ymgynghori'n ffurfiol arnynt, ar sail pryderon am y broses, gwybodaeth anghywir ac anghyflawn a diffyg addasrwydd unrhyw un o'r safleoedd sy'n cael eu hystyried.

2, Cytuno nad yw'r un o'r safleoedd ar y rhestr fer i'w hystyried gan y Cabinet yn addas, gan gynnwys y safleoedd yn Langley Close, Magwyr a Dancing Hill, Gwndy. 3, Yn unol â chanfyddiadau'r pwyllgor craffu, cytuno i wrthod y safleoedd ym Magwyr a Gwndy fel rhai anaddas i'w datblygu fel Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr.

14. Cwestiynau gan Aelodau

15. O'r Cynghorydd Sir Emma Bryn i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod, Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Roeddem yn falch iawn o glywed y cyhoeddiad am gynlluniau i atgyweirio Pont Gwy ym mis Ionawr, gan fod wyneb y bont hon wedi bod mewn cyflwr gwael ers sawl blwyddyn. Ond gyda newyddion bod y gwaith atgyweirio bellach i'w ohirio tan y flwyddyn nesaf, tybed a all yr Aelod Cabinet gadarnhau y bydd yr arian yn parhau i fod ar gael ac y bydd yn dal i fod yn ddigonol i dalu am y gwaith sydd ei angen i atgyweirio'r bont yn llawn ac i safon uchel. Hefyd, roedd llawer o drigolion a busnesau, sy'n dibynnu ar fynediad dros y bont, yn bryderus iawn o glywed y gallai'r bont fod ar gau yn llwyr ar gyfer mynediad i gerbydau am hyd at 5 wythnos gyfan. Roedd ansicrwydd ynghylch hyd y cau yn achosi pryder i lawer o drigolion a busnesau sy'n dibynnu ar fynediad at waith, iechyd a darpariaethau. A gawn ni syniad cliriach o ba mor hir y bydd y bont ar gau a pha gamau sy'n cael eu rhoi ar waith i liniaru rhai o ganlyniadau'r cau hwn, cyn cyhoeddi dyddiad yn y dyfodol, gan gynnwys gwybodaeth am addasiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn, a chyfleusterau parcio dros dro bob ochr i'r bont. Byddem yn croesawu cyfarfod cyhoeddus yn Wyesham yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i gyfathrebu â'r preswylwyr y camau lliniaru y gallwn eu rhoi ar waith ac i ddeall anghenion y gymuned hon yn well.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=15746

County Councillor Laura Wright left the meeting at 18.24
County Councillor Tony Easson left the meeting at 18.26
County Councillor Ben Callard left the meeting at 18.26
County Councillor Jackie Strong left the meeting at 18.30
County Councillor Maria Stevens left the meeting at 18.30
County Councillor Steven Garrett left the meeting at 18.30
County Councillor Tudor Thomas left the meeting at 18.32
County Councillor Lisa Dymock left the meeting at 18.36
County Councillor Fay Bromfield left the meeting at 18.37

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm

16. O'r Cyngorydd Sir Jane Lucas i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i atgyweirio Pont Gwy yn Nhrefynwy?

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=16193

17. O'r Cyngorydd Sir Richard John i'r Cyngorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd

A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CDLIN

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=16299

18. O'r Cyngorydd Sir Christopher Edwards i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A allai'r aelod cabinet roi gwybod i'r cyngor pa wersi a ddysgwyd o'r cynllun rheoli traffig a roddwyd ar waith yn fy ward o St Kingsmark, Cas-gwent ar gyfer penwythnos cerddoriaeth fyw a gynhelir gan Gyngherddau Cas-gwent, a fu'n ymdrin â 3 diwrnod o ddigwyddiadau mawr ym mis Mehefin/Gorffennaf eleni.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=16463

19. 10.5. O'r Cyngorydd Sir Simon Howarth i'r Cyngorydd Sir Ian Chandler, Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch

A fyddai'r aelod cabinet yn derbyn bod methiannau wedi digwydd wrth fwrw ymlaen â datrysiad i ddarparu gofal iechyd gyda chymuned Llanelly a'r ardaloedd cyfagos. A wnaiff roi sicrwydd y bydd, gydag uwch swyddogion, yn rhoi ei sylw mwyaf gyda'r bwrdd iechyd, a hefyd yn bwysicaf oll chwilio am ddatrysiad wrth gyflawni cynllun gofal ar gyfer yr ardal a'r gymuned gyfagos.

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=16932

20. O'r Cyngorydd Sir Tony Kear i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad arfaethedig ledled y sir o barcio ceir?

https://www.youtube.com/live/lifw6_4fBJE?feature=shared&t=17279

21. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 26ain Hydref 2023

The meeting ended at 6.50 pm